Information Services @TSD

We've been busy whilst you've been away!

Email

We have changed your email to **live@edu**
Microsoft Live@edu is more than just email - it includes access to other services that will enhance your ability to collaborate and communicate, including calendars, document sharing, instant messaging, video chat, mobile email, and more. Your existing email account will stay alive until November, you will be able to access your account up until then. You will be able to forward your older emails to your new live@edu account.

Computers

We have upgraded all student access computers on the Carmarthen campus. With the latest version of Windows and upgraded applications, you will see a big difference! You will need to change your password as we have increased the security. Your password must be at least 8 characters long.

Password

We need you to change your password and you will need to reset it using at least 8 characters. Login to any workstation with user name: register and password register.

Home folder

Your M: drive will change to a U: drive, you will find all your files already copied and ready for use. With live@edu you will have 25Gb of online storage… that's massive!

Printing

The print system is changing from a paper card system to a credit system. Bring your existing paper cards to the Library point to transfer your credit across. You can also purchase additional credit at the library information point.

Wi-Fi

We have made it easier to connect to Wi-Fi. Your laptop should still connect to Crywdrol on your return but if it doesn't we have made it easier for you to connect to our new CampusNet wireless network.

PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

Opening Hours
Mon-Thu: 08:45-17:00
Fri: 08:45-16:30

0300 500 5055 itsd@tsd.ac.uk

Gwasanaethau Gwybodaeth @YDDS

Rydym ni wedi bod yn brysur tra roeddech chi i ffwrdd!

Gwasanaethau Gwybodaeth

Rydym ni wedi bod yn brysur tra roeddech chi i ffwrdd!

E-bost

Rydym ni wedi newid eich e-bost i **live@edu.** Mae Microsoft Live@edu yn fwy nag e-bost – mae'n rhoi mynediad i wasanaethau eraill a fydd yn gwella eich gallu i gydweithio a chyfathrebu. Mae'n cynnwys calendrau, rhannu dogfennau, negeseua gwib, fideo-sgwrsio, e-bost symudol, a mwy. Bydd eich cyfrif e-bost presennol yn parhau'n fyw tan fis Tachwedd a gallwch gael mynediad i'ch cyfrif tan hynny. Byddwch yn gallu anfon eich hen e-byst ymlaen i'ch cyfrif live@edu newydd.

Cyfrifiaduron

Rydym ni wedi uwchraddio'r holl gyfrifiaduron sydd ar gael i fyfyrwyr ar gampws Caerfyrddin. Gyda'r fersiwn diweddaraf o Windows a chymwysiadau wedi'u huwchraddio, fe welwch chi wahaniaeth mawr. Bydd angen i chi newid eich cyfrinair gan ein bod ni wedi cynyddu diogelwch, ac mae'n rhaid i'ch cyfrinair newydd gynnwys o leiaf 8 llythyren/rhif.

Cyfrinair

Mae'n ofynnol i chi newid eich cyfrinair a bydd angen i chi ei ailosod gan ddefnyddio o leiaf 8 llythyren/rhif. Mewngofnodwch i unrhyw weithfan gan ddefnyddio'r enw defnyddiwr: register a'r cyfrinair register.

Ffolder cartref

Bydd eich gyriant M: yn newid i yriant U:, ac fe welwch fod eich ffeiliau i gyd wedi cael eu copïo eisoes a'u bod yn barod i'w defnyddio. Gyda Live@edu bydd gennych storfa ar-lein o 25Gb… sy'n enfawr!

Argraffu

Mae'r system argraffu'n newid o system cerdyn papur i system gredyd. Dewch â'ch cardiau papur presennol i'r man gwybodaeth yn y Llyfrgell i drosglwyddo eich credyd. Gallwch hefyd brynu credyd ychwanegol yn y man gwybodaeth yn y Llyfrgell.

Wi-Fi

Rydym wedi'i gwneud yn haws cysylltu â Wi-fi. Fe ddylai'ch gliniadur gysylltu â Crwydrol o hyd wedi i chi ddychwelyd ond os na, rydym wedi'i gwneud yn haws i chi gysylltu â'n rhwydwaith diwifr newydd sef CampusNet.

PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

Oriau Agor
Llun-Iau: 08:45-17:00
Gwe: 08:45-16:30

0300 500 5055 itsd@tsd.ac.uk